www.breaksnorthwales.co.uk

www.adventure-northwales.com

www.golf-northwales.co.uk

www.walkingnorthwales.co.uk

www.moviemapnorthwales.co.uk

www.eventsnorthwales.co.uk

www.gardensnorthwales.co.uk

www.attractionsnorthwales.co.uk

www.walledtowns.co.uk

egroeso

bwletin electronig gan
Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru

Byd o antur ar stepen y drws

01745 589020
www.tpnw.org

▶ tudalen nesaf

Byd o antur ar stepen y drws

Mae anturwyr yn heidio i Ogledd Cymru i chwilio am gyffro a gwefr.

Ymgyrch farchnata fawr sy'n gyfrifol am hynny, sef Antur Gogledd Cymru, sy'n helpu'r rhanbarth i oresgyn y wasgfa ariannol a denu mwy a mwy o ymwelwyr.

Lansiwyd yr ymgyrch gan Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru sy'n dweud bod yr ardal yn cystadlu i fod yn brif ganolfan wyliau'r DU.

Y llynedd cynhyrchodd Antur Gogledd Cymru £305,000 o incwm ychwanegol gan ymwelwyr – ar sail buddsoddiad o ryw £19,000.

Er gwaethaf y dirwasgiad, dywed Paul Maung-Maung, sy'n rheoli Antur Gogledd Cymru ar ran y Bartneriaeth Twristiaeth, fod pethau'n argoeli'n well nag erioed eleni.

Dywedodd Mr Maung-Maung wrth Fforwm blynyddol Antur Gogledd Cymru yn Llanelwy bod archebion ymlaen llaw i fyny 122 y cant hyd yn hyn, o £39,000 i £88,000, tra bod y wefan yn denu mwy o weithgarwch hefyd.

Meddai: "A dweud y gwir, mae'n debyg nad oes unman arall yn y byd lle mae cymaint o wyliau antur a gweithgarwch o safon uchel ar gael.

"Rydym wedi trefnu diwrnod i'r cyfryngau gan herio pobl i gymryd rhan mewn 10 o wahanol weithgareddau mewn un diwrnod, o gerdded ceunant i gaiacio, o ddringo mynydd i feicio mynydd.

"Mewn gwirionedd byddem wedi gallu darparu mwy fyth, hyd at 16 o wahanol weithgareddau o fewn 40 munud oddi wrth ei gilydd mewn car.

"Mae'n hawdd iawn cyrraedd Gogledd Cymru. Rydym dair awr o Lundain, dwy awr o Fanceinion a Birmingham.

"Gallwch fod yn crwydro'r arfordir, yn dringo ac yn neidio i'r môr a hanner awr yn ddiweddarach gallech fod yn canŵio yn y mynyddoedd – does unman arall yn y byd lle gallwch wneud hynny.

"Gall Gogledd Cymru gynnig popeth, o antur ysgafn hyd at y stwff mwyaf eithafol - boed saethyddiaeth, saethu peli paent neu farchogaeth hyd at fynydda gwirioneddol galed, rafftio dŵr gwyn, sgramblo a sgwba-blymio.

"Ac yn gefndir i ddewis helaeth o weithgareddau anturus sy'n gwneud i'r adrenalin lifo, mae gennym

Yn y darlun yn Fforwm Antur Gogledd Cymru Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru mae, o'r chwith, Paul Maung-Maung, Rheolwr Antur Gogledd Cymru; Chris Wright, Snowdonia Active; Phil Nelson, Cadeirydd y Fforwm a Chyfarwyddwr Masnach y Bartneriaeth Twristiaeth; Jim Embrey a Ceri Jones, y ddau o Croeso Cymru; Dewi Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth Rhanbarthol Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru; ac Arran Cartwright, Cartwright Associates.

draethau godidog, golygfeydd mynyddig ysblennydd, y dyffrynnoedd a'r coedwigoedd - ac mae pob un o'r rhain o fewn llai na hanner awr oddi wrth ei gilydd."

"Mae'n ddiwydiant sy'n tyfu. Pan gychwynnodd Antur Gogledd Cymru bedair blynedd yn ôl roedd gennym 11 o ddarparwyr gweithgareddau – erbyn hyn mae gennym 47.

"Ar y dechrau, roedd gennym bump o ddarparwyr llety ond bellach mae gennym 38.

"Er gwaethaf y dirwasgiad, mae'r farchnad hamdden yn gryf iawn ac mae llawer o bethau cadarnhaol wrth i'r gyfradd arian parod olygu ei bod 20 i 30 y cant yn rhatach yma eleni na'r hyn oedd yn 2008.

Dywedodd Jim Embrey o Croeso Cymru wrth y Fforwm ei bod yn ymddangos bod nifer yr ymwelwyr eisoes lawer yn uwch na'r llynedd wrth i'r corff henebion, Cadw, adrodd am gynnydd o 40 y cant yn nifer yr ymwelwyr yn Ne Cymru adeg y Pasg, tra bod y cynnydd yn 70 y cant yng Ngogledd Cymru.

Ychwanegodd: "Rydym wedi ail-frandio Cymru fel lle i ddod i gymryd rhan mewn gweithgareddau ac rydym wedi cyflwyno cyfres o hyrwyddwyr a rhoi iddynt y dasg o greu cynlluniau marchnata ar gyfer pob sector.

"Bydd yna hyrwyddwyr cerdded, hyrwyddwyr canŵio, a hyrwyddwyr beicio a beicio mynydd a gallai'r cyfan olygu bod 500,000 yn fwy o ymwelwyr yn dod i Gymru."

Meddai Dewi Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth Rhanbarthol PTGC: "Yr hyn y mae angen i ni ei gyfleu yw bod y rhaglen gweithgareddau ac antur nid yn unig yn diwallu angen hamdden ac addysg ond hefyd yr agenda byw'n iach yn ogystal â'r agenda swyddi a'r agenda dwristiaeth.

"Mae hefyd yn rhoi mwy o hygrededd i rywun sy'n dychwelyd i Stoke neu Stockport os gall ddweud ei fod wedi bod yn canŵio neu'n beicio mynydd yng Ngogledd Cymru, yn hytrach na dim ond bod ar wyliau traddodiadol yma."

www.tpnw.org

llun: eyeimagery

tudalen flaenorol ◄